# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-11-06(p3)

**Dyddiad: Dydd Iau 6 Gorffennaf 2006**
**Amser: 9.30am tan 12.30pm**
**Lleoliad: Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth White Rose, Tredegar Newydd**

## Teitl: Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynllun y Sector Gwirfoddol 2006/06

### Diben

1. Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo Adroddiad Blynyddol drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynllun y Sector Gwirfoddol 2005/06.

### Crynodeb

2. Mae'r Adroddiad (yn Atodiad 1) yn rhoi trosolwg o gynnydd parthed Cynllun y Sector Gwirfoddol yn ystod blwyddyn ariannol 2005-2006. Mae'n nodi sut mae Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid yn datblygu gofynion y Cynllun mewn meysydd polisi perthnasol, ac yn rhoi ar waith yr argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Annibynnol a adolygodd y Cynllun yn 2004.

3. Ffigurau dros dro yw'r rhai yn yr adroddiad ar gyfer cyllid Llywodraeth y Cynulliad i'r sector gwirfoddol. Rydym wrthi'n codio ychwanegiadau diweddar i gronfa ddata cyflenwyr y Cynulliad ar gyfer statws sector gwirfoddol, a bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei ddiwygio'n briodol i adlewyrchu hyn. Yn yr un modd, rydym yn aros am fanylion parthed cyllid i'r sector gwirfoddol gan Fyrddau Iechyd Lleol a CCNCau. Disgwylir y rhain yn fuan a byddant yn cael eu cynnwys ar ôl eu derbyn.

4. Bydd dadl ar yr adroddiad yn cael ei gynnal yn y Cyfarfod Llawn ym mis Medi. Mae'r dyddiad i'w gadarnhau. Wedi i'r Cynulliad gymeradwyo'r adroddiad, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad. Caiff ei argraffu hefyd, a'i ddosbarthu'n eang.

### Y Cefndir

5. Yn unol ag Adran 114 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i'r Cynulliad lunio cynllun sy'n nodi "…sut y mae'n bwriadu, drwy arfer ei swyddogaethau, hybu buddiannau cyrff gwirfoddol perthnasol sefydliadau eraill". Cafodd Cynllun presennol y Sector Gwirfoddol sêl bendith y Cynulliad

ar 5 Gorffennaf 2000. Mae'n ofynnol hefyd, o dan Adran 114(9), i'r Cynulliad, ar ôl pob blwyddyn ariannol, gyhoeddi adroddiad am y modd y cafodd y cynigion a nodwyd yn y cynllun eu gweithredu yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Mae copi o'r Adroddiad drafft yn Atodiad 1.

## Themâu Trawsbynciol

6. Mae Cynllun y Sector Gwirfoddol yn berthnasol i holl bolisïau a rhaglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n golygu bod rheidrwydd ar Lywodraeth y Cynulliad i gymryd camau pendant i weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol a chymunedol, ac ymgynghori yn ôl y gofyn am fentrau polisi neu am benderfyniadau sy'n effeithio ar y sector.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

7. Gwahoddir y Pwyllgor i gymeradwyo Adroddiad Blynyddol Drafft 2005/06 ar Gynllun y Sector Gwirfoddol a nodi y bydd yr adroddiad yn cael ei drafod yn y sesiwn lawn ar ôl toriad yr haf.

**Edwina Hart**

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**